Craffu - Ymgysylltu heddiw, Llunio yfory - Scrutiny - Engaging today, Shaping tomorrow

Adroddiad:

Y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol

# Adroddiad Blynyddol 2018-19

Mai 2019

Dinas a Sir Caerdydd

# AELODAETH Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

Y



Cynghorydd Ramesh Patel







(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Bob Derbyshire   Y Cynghorydd Philippa Hill-John   Y Cynghory
Jones







Y Cynghorydd John Lancaster Y Cynghorydd Oliver Owen Y Cynghorydd J





Y Cynghorydd Peter Wong Y Cynghorydd Ashley Wood

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Unwaith eto bu 2018/19 yn flwyddyn brysur iawn i Bwyllgor Craffu Amgylcheddol Caerdydd. O fewn yr hyn sy’n ymddangos fel cyfnod byr iawn o amser rydym wedi cynnal deuddeg cyfarfod cyhoeddus, wedi craffu ar 30 o ddarnau pwysig o waith ac wedi canolbwyntio ar nifer o bynciau allweddol fel rhan o’n hagenda gorchwyl a gorffen, er enghraifft, sbwriel a thipio anghyfreithlon a bioamrywiaeth.

Bob tro, dechreuodd y Pwyllgor flwyddyn y Cyngor trwy ddatblygu ei raglen waith a gefnogwyd gan gyfraniadau gwerthfawr gan randdeiliaid allanol (er enghraifft Yr Athro Stuart Cole, y Sefydliad Cynllunio Trefol
Brenhinol, WRAP a Cadwch Gymru'n Daclus, Aelodau’r Cabinet a gwasanaethau.

Wrth wneud hyn defnyddiom ein llythyron Pwyllgor i godi nifer o bynciau pwysig gan gynnwys:

- Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd - Briff Cyllidebol (2 Hydref 2018) - mynegodd y Pwyllgor bryder difrifol oherwydd sefyllfa ariannol y Gyfarwyddiaeth, gan wneud sylwadau ar raddfa’r her wrth gyflawni £6.5 miliwn mewn arbedion yn 2019/20.

- Ansawdd Aer - Diweddariad ar Gynnydd (19 Mawrth 2019) - cefnogodd y Pwyllgor lawer o’r cynigion, fodd bynnag, cododd bryderon bod y Cyngor ond â’r nod o gyflawni cydymffurfiaeth o ran ansawdd yr aer o dan y targed o 40 µg/m3 mewn ardal benodol, o fewn ‘cyn lleied o amser â phosibl’, pan ddylai, yn hytrach fod wedi ceisio gwneud popeth y gallai i wella ansawdd yr aer ledled Caerdydd o fewn ‘cyn lleied o amser â phosibl’.

- Diweddariad ar y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (6th Tachwedd 2018) - gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ar y sefyllfa o ran TAW Gwasanaeth Gwastraff Masnachol y Cyngor ar gyfer pob trafodyn gyda busnesau a’r cyhoedd. Roeddent yn teimlo y gallai’r gallu i beidio â gosod TAW roi mantais gystadleuol i’r Cyngor yn y maes hwn. Ar yr un pryd, awgrymwyd ganddynt y dylai’r Cyngor lobio Llywodraeth Cymru mewn ymgais i sicrhau tegwch trwy gyflwyno targedau ailgylchu i weithredwyr gwastraff masnachol - mae peidio â gorfod glynu wrth darged ailgylchu gwastraff yn fantais glir i gwmnïau gwastraff y sector preifat yng Nghymru.

- Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd (2 Ebrill 2019) - gofynnodd y Pwyllgor y dylai’r Cyngor, yn y dyfodol, gyflwyno rhestr gyflawn i bob Aelod o’r Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd’, ac y dylid sicrhau bod copi o’r ddogfen derfynol ar gael i’w graffu gan y cyhoedd.

Y darn o waith mwyaf sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd yr ymarfer gorchwyl a gorffen i Dipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd’. Roedd hyn yn cynnwys pum cyfarfod o’r grŵp gorchwyl yn cynnwys un ar ddeg o sesiynau ar wahân â thystion; ymdriniodd â 26 o dystion a gwnaeth cyfres o argymhellion yn seiliedig ar themâu ar draws y meysydd canlynol - ‘Dyrannu Adnoddau a Thechnoleg’, ‘Gorfodi a Dirwyon’, ‘Addysg ac Ymwybyddiaeth’, ‘Biniau’, ‘Gwirfoddoli’, ‘Sbwriel yn

Gyffredinol', 'Sbwriel Bwyd Brys', 'Tipio'n Anghyfreithlon', 'Baw Cŵn', 'Sbwriel Ysmygu' a 'Gwm Cnoi'. Gwnaed yr holl waith hwn yn y gobaith y byddai'r canfyddiadau yn y pen draw yn helpu i sicrhau bod Caerdydd yn lle glanach. Dyma'r prif argymhellion a wnaed yn ystod yr ymchwiliad:

- Creu Tîm Gorfodi pwrpasol yn ychwanegol i adnoddau sydd eisoes yn bodoli i gael eu dosbarthu ar sail cost niwtral.
- Adfywio'r ymgyrch 'Caru eich Caerdydd' a defnyddio mwy o gyfryngau cymdeithasol i anfon negeseuon addysg ac ymwybyddiaeth a dargedir;
- Gwella prosesau digidol y Cyngor i adrodd ar sbwriel, er enghraifft, ehangu nifer y troseddau sbwriel y gellir eu hadrodd trwy ap newydd y Cyngor;
- Rheoli biniau'n well trwy wella dulliau casglu data, ynghyd â dosbarthu llai o finiau ond rhai mwy o faint yn raddol;
- Gwneud Swydd Cydlynydd Gwirfoddol y Cyngor yn swydd barhaol er mwyn helpu i dyfu rhwydweithiau o wirfoddolwyr casglu sbwriel Caerdydd ymhellach;
- Dosbarthu sticeri ymwybyddiaeth sbwriel bwyd i bob un o fanwerthwyr bwyd brys Caerdydd;
- Digideiddio o'r dechrau i'r diwedd y broses a ddefnyddir gan y Cyngor i atal ac adrodd ar dipio anghyfreithlon.

Yn ystod 2018/19 gwnaeth y Pwyllgor ymdrech arbennig i sicrhau bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i lawer o'i waith. Wrth wneud hyn cyflawnodd nifer o eitemau proffil uchel er budd y cyhoedd megis y cyd-graffu ar y canlynol:
'Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus: Rheoliadau Cŵn Arfaethedig (11 Tachwedd 2018)'. Denodd hyn ddiddordeb sylweddol yn ein gwaith a helpodd i gyfrannu tuag at ein nod o ymgysylltu â'r cyhoedd ar lefel ehangach. Erbyn diwedd y flwyddyn, llwyddodd y Pwyllgor i:

- Wahodd 55 o dystion i gymryd rhan mewn cyfarfodydd Pwyllgor a gorchwyl a gorffen - roedd 38 o'r tystion hyn yn dystion allanol;

- Gwyliwyd cyfarfodydd y pwyllgor 343 o weithiau drwy gyfrwng gweddarllediadau a 1,468 o weithiau drwy'r gweddarllediadau a gefnogir gan Facebook;

- Fel rhan o’r ymchwiliad i Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd’, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg cyhoeddus i brofi safbwyntiau preswylwyr ar sbwriel a thipio anghyfreithlon a gwblhawyd gan 3,433 o bobl. Yn ogystal â hyn cynhaliodd y Pwyllgor weithdy i wirfoddolwyr a gefnogwyd yn dda iawn er mwyn cael dealltwriaeth well o’r heriau sy’n wynebu gwirfoddolwyr sy’n casglu sbwriel yng Nghaerdydd.

I orffen fy rhagair, hoffwn ddiolch i bob un o Aelodau’r Pwyllgor, y Cabinet, tystion allanol a swyddogion sydd wedi cefnogi ein gwaith. Yn benodol, bu’n bleser gweithio gyda grŵp rhagorol o Gynghorwyr newydd sydd, yn ddieithriad, wedi mynd ati i ymgysylltu â'u rolau newydd ym mhob cyfarfod. Edrychaf ymlaen at eich cymorth parhaus dros y flwyddyn nesaf.



Y Cynghorydd Ramesh Patel Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Amgylcheddol Caerdydd

## CYFLWYNIAD

Mae’r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o asesu perfformiad gwasanaethau a llywio gwaith datblygu polisi mewn ystod o wasanaethau’r Cyngor, gan gynnwys pob agwedd ar drafnidiaeth, cynaliadwyedd a gwastraff.

Mae’r adroddiad yn cyflwyno uchafbwyntiau gweithgareddau’r Pwyllgor yn ystod 2018/19. Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mai 2019, craffodd y Pwyllgor ar y testunau canlynol:

- Gwybodaeth Briffio – Pan fo'r Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth am destun penodol a ddaw â goblygiadau amgylcheddol i'r Cyngor ac i'r ddinas. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2018/19:

  - Rheoli Coed (5 Mehefin 2018);
  - Adran 106 Rhestrau Cynigion Seilwaith Lleol - Brîff Aelodau (3 Gorffennaf 2018);
  - Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoliadau Cŵn - Brîff Aelodau (
  - Brîff Aelodau: Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (4 Medi 2018);
  - Diweddariad ar Orfodi Parcio (4 Medi 2018)
  - Cyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Brîff ar y Gyllideb (2 Hydref 2018);
  - Diweddariad ar Raglen Beicio Caerdydd (2 Hydref 2018);
  - Nodyn Briffio i Aelodau: Polisi Enwi Strydoedd (6 Tachwedd 2018);
  - Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus - Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru (Adroddiad Paving) (19 Mawrth 2019).

- Ymholiadau - Pan oedd y Pwyllgor wedi ymchwilio i bwnc dros gyfnod o amser a hynny wedi arwain at gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cabinet.
  Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2018/19:

  - Ymateb y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o'r enw Adfer ein Hafonydd;
  - Rheoli Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd;
  - Ymateb y Cabinet i Ymchwiliad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o'r enw 'Gwella Ansawdd Aer Caerdydd'
  - Rheoli Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol yng Nghaerdydd

- Monitro Perfformiad – Pan fo'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad y Cyngor. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2018/19:

- Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Chwarter 3 a 4 Adroddiadau Perfformiad 2017/18 (3 Gorffennaf 2018);
- Cyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd – Adroddiadau Perfformiad Chwarterau 1 a 2, 2018/19 (4 Rhagfyr 2018).

• Adolygiad Polisi – Pan fydd y Pwyllgor wedi cyfrannu at brosesau datblygu polisi'r Cyngor, er enghraifft trwy ystyried dogfennau polisi drafft a/neu os yw'r Pwyllgor wedi ystyried gweithredu'r polisi. Bydd yn ystyried a yw hyn wedi digwydd yn brydlon a beth fydd effaith y polisi, a bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Cabinet gael barn Aelodau'r Pwyllgor Craffu ynghylch a oes angen gwneud newidiadau ai peidio. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2018/19:

- Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd 2018/19 (3 Gorffennaf 2018) a 2019/20 (7 Mai 2019);
- Cyfarfod ar y Cyd: Ariannu Cyfnewidfa Trafnidiaeth Bysiau Newydd (18 Gorffennaf 2018);
- Diweddariad ar Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu (6 Tachwedd 2018);
- Cyfarfod ar y Cyd: Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus: Rheoliadau Cŵn Arfaethedig (11 Tachwedd 2018);
- Ansawdd yr Aer - Diweddariad ar Gynnydd (19 Mawrth 2019);
- Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd (2 Ebrill 2019);
- Fferm Solar Ffordd Lamby - Diweddariad ar Gynnydd (2 Ebrill 2019).

• Craffu Cyn Penderfynu – Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor werthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn iddynt fynd gerbron Cabinet y Cyngor. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cabinet wybod barn Aelodau Craffu cyn iddynt wneud penderfyniad. Dyma enghreifftiau o flwyddyn 2015/16:

- Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (4 Medi 2018);
- Clampio a Symud Cerbydau Niwsans oddi ar Briffyrdd a Thir Cyhoeddus (6 Tachwedd 2018);
- Cynigion Cyllidebol Drafft 2019/20 – Trosolwg Corfforaethol (18 Chwefror 2019);

- Cynllun Corfforaethol Drafft 2019 tan 2022 a 2019/20 Cynigion Cyllideb Drafft 2018/19 Portffolio Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth (18 Chwefror 2019);
- Cynllun Corfforaethol Drafft 2019 tan 2022 a 2019/20 Cynigion Cyllidebol Drafft - Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd (18 Chwefror 2019);
- Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Drafft - Rheoli Cŵn (19 Mawrth 2019);
- Polisi Apelio Dirwyon Parcio (19 Mawrth 2019);
- Craffu Cyn Penderfynu; Goleuadau Stryd LED ar y Rhwydwaith Priffyrdd Preswyl (7 Mai 2019);
- Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir - Cynllun Busnes Drafft 2019/20 (7 Mai 2019).

Dros y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 12 cyfarfod o'r pwyllgor ac ysgrifennodd 20 llythyr i'r Cabinet ac at swyddogion a phartneriaid allanol er mwyn rhannu eu sylwadau/argymhellion a phryderon yn dilyn craffu ar eitemau yng nghyfarfodydd y pwyllgor.

Bu Aelodau mewn nifer o ddigwyddiadau craffu eraill, gan gynnwys cyfarfodydd rhaglennu gwaith, cyfarfodydd cyn y Pwyllgor a chyfarfodydd grwpiau gorchwyl a gorffen.

# GWYBODAETH BRIFFIO

## Rheoli Coed (5 Mehefin 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 15 Mehefin 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Rheoli Coed'. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden a swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd. Diben yr adroddiad oedd adolygu sut mae'r Cyngor yn Rheoli Coed ac ystyried trefniadau presennol a rhai posibl yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Nododd y Pwyllgor eu bod yn pryderu am ostwng y gyllideb rheoli coed o £528,000 (gan gynnwys taliad untro o £100,000 o'r mecanwaith gwydnwch ariannol) yn 2017/18 i £431,530 yn 2018/19 - gostyngiad cyffredinol o £96,470. Yn ogystal â hyn, roedd y targed incwm ar gyfer 2018/19 wedi cynyddu gan £5,000 a oedd yn golygu, o ystyried y £15,426 o ddiffyg mewn incwm ar gyfer 2017/18, bod angen i'r gwasanaeth gynyddu incwm gan £20,426 yn 2018/19. Dywedodd yr aelodau fod cadw i fyny gyda'r ôl-groniad rheoli coed gyda chyllideb lai ac wedyn cyflawni yn erbyn targed incwm uwch yn her sylweddol.

- Llongyfarchodd y Pwyllgor y Gwasanaeth Rheoli Coed am y gwaith maent wedi ei wneud i leihau'r hawliau yswiriant sy'n ymwneud â choed a wnaed yn erbyn y Cyngor. Bu'r lleihad o £45,333.96 yn 2012/13 i £0 yn 2016/17 yn aruthrol ac roedd yn dangos bod arbedion effeithlonrwydd wedi'i gyflawni yn y maes hwn.

## Adran 106 Rhestrau Cynigion ar gyfer y Seilwaith Lleol Briff (3 Gorffennaf 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 3 Hydref 2017 gyfle i'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Adran 106 Rhestrau Cynigion ar gyfer y Seilwaith Lleol - Briff i Aelodau' Y rheswm dros dderbyn yr adroddiad oedd er mwyn cyflwyno briffiad byr i Aelodau ar:

- Yr ymateb i'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ac a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Medi 2017 o'r enw 'Rheoli Cyllid Adran 106 ar gyfer Datblygu Projectau Cymunedol.'

- Ei nod oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ddatblygu'r broses ar gyfer creu Rhestrau Cynigion ar gyfer y Seilwaith Lleol'. Roedd y broses amlinellol i fod i

fynd i’r Cabinet i’w gymeradwyo ar 20 Medi 2018, a byddai yn y pen draw yn helpu Cynghorwyr i nodi projectau seilwaith lleol a allai o bosibl gael ei hariannu trwy gyfraniadau A106 neu ffynonellau cyllid eraill.

Gofynnwyd i aelodau nodi cynnwys yr eitem a thrafod unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol sy’n perthyn i’r adroddiad.

## Gorchymyn Diogelu Gofod Cyhoeddus –Rheoli Cŵn - Aelod Brîff (3 Gorffennaf 2018)

Roedd y cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2018 yn rhoi’r cyfle i’r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol wneud sylwadau ar eitem o’r enw ‘Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn - Briff i Aelodau’. Y rheswm dros dderbyn yr adroddiad oedd rhoi briff byr i’r Aelodau ar gynnwys adroddiad y Cabinet o’r enw ‘Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn’. Prif nodau adroddiad y Cabinet oedd:

- Ystyried ehangu pwerau gorfodi, er mwyn sicrhau amgylchedd glanach a mwy cynaliadwy ledled Caerdydd trwy gefnogi defnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus fel y’u diffinnir ym Mholisi Cyngor Caerdydd Datganiad;

- I ystyried a ddylai’r awdurdod ymgynghori a’r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill gyda golwg ar gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) o dan Adran 59 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Diben y gorchymyn yw gwella a disodli pwerau rheoli cŵn presennol sydd wedi dyddio ledled Dinas Caerdydd.

Gofynnwyd i aelodau nodi cynnwys yr eitem a thrafod unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol parthed yr adroddiad.

## Brîff Aelodau: Ail Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd Adroddiad Monitro Blynyddol (4 Medi 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 4 Mawrth 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Briff Aelodau: 'Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi brîff byr i Aelodau ar gynnwys adroddiad Cabinet o'r enw 'Ail Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol' a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ei gyfarfod ddydd Iau 20 Medi 2018.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr i'r Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am unedau manwerthu gweithredol a chyfraddau eiddo gwag mewn canolfannau siopa ardal a lleol. Yn ogystal â hyn, gwnaethant ofyn sawl siop mewn canolfannau siopa ardal a oedd bellach yn siopau elusennol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

- Yn ystod y cyfarfod dywedodd Aelod fod y gyfradd cwblhau ar gyfer anheddau newydd yn is na'r gwerth targed a restrir yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Roedd yn bryderus bod Caerdydd wedi methu bwrw'r targed a ddogfennir a bod cyflawni cyfanswm cyffredinol y cynllun yn golygu bwrw targedau blynyddol er mwyn cyflawni targed cynllun cronnol. Roedd y Pwyllgor yn bryderus am y diffyg cynnar hwn a'i effeithiau tymor hwy posibl a gofynnodd beth y gellid ei wneud i sicrhau bod targed y dyfodol yn cael ei fwrw.

- Gofynnodd Aelod am fanylion am geisiadau cynlluniau Tai Amlfeddiannaeth (HMO) dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn helpu'r Pwyllgor i asesu'r nifer a gyflwynwyd; y nifer a dderbyniwyd a'r nifer a wrthodwyd; yr ardaloedd yn y ddinas y mae'r ceisiadau yn deillio ohonynt; y rhesymau a roddwyd dros wrthod y ceisiadau a nifer yr apeliadau llwyddiannus ac aflwyddiannus.

- Wrth adolygu'r adran ar 'Cyflawni Seilwaith Trafnidiaeth Cynaliadwy' sylwodd y Pwyllgor fod nifer o'r projectau wedi'u sgorio'n brojectau ambr a'u nodi 'Wedi'u gohirio' gydag esboniad o 'Yn amodol ar gyllid'; roedd y rhain yn cynnwys nifer o 'Goridorau Bysus Cyflym'. Roedd peth pryder ynglŷn â'r oedi mewn cysylltiad â'r projectau trafnidiaeth pwysig hyn oherwydd eu bod wedi bod ar y gweill ers cryn dipyn o amser. Teimlai'r Aelodau fod y fath brojectau trafnidiaeth yn hanfodol bwysig yn yr ymdrech i gynyddu newid moddol i ddewisiadau amgen fel teithio ar y bysus - rhan allweddol o'n Cynllun Datblygu Lleol ac yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn y llythyr roeddent yn gofyn am esboniad am yr oedi i'r cynlluniau hyn.

- Nododd y maes pwnc 'Cyflawni Rhaniad Moddol o 50:50' fod teithio cynaliadwy mewn nifer o ardaloedd yn berthnasol i newid moddol wedi lleihau yn ystod 2017. Er enghraifft, roedd teithio ar gyfer addysg wedi gostwng o 59.6% yn 2016 i 55.9% yn 2017 - gostyngiad o 3.7%; roedd teithio ar gyfer siopa (Canol y Ddinas) wedi gostwng o 67.9% yn 2016 i 64.7% yn 2017 - gostyngiad o 3.2%; roedd teithio ar gyfer siopa (Arall) wedi gostwng o 45.6% yn 2016 i 38.8% yn 2017 - gostyngiad o 6.8%; ac roedd teithio ar gyfer hamdden wedi gostwng o 60.2% yn 2016 i 56.4% yn 2017 - gostyngiad o 3.8%. Roedd y Pwyllgor yn bryderus am y canfyddiadau hyn a gofynnodd ac esboniad manwl o'r gostyngiadau.

- Yn ystod y cyfarfod, nodwyd bod y gwaith o nodi safleoedd ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr parhaol a theithiol wedi'u hoedi oherwydd yr angen i gynnal rhagor o ymchwiliadau manwl i'r safleoedd. Roedd yr asesiadau technegol manwl wedi'u cwblhau ac roedd y Cyngor yn ystyried goblygiadau canfyddiadau'r asesiadau dan sylw a gwaith amddiffyn rhag llifogydd sy'n mynd rhagddo er

mwyn nodi opsiynau er mwyn symud y gwaith hwn ei flaen. Roedd y gwaith a wnaed wedi cynnwys trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran nodi safle ar gyfer y dyfodol.

## Diweddariad ar Orfodi Parcio (4 Medi 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 4 Medi 2018 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Diweddariad ar Orfodi Parcio'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Aelodau ar ddull y Cyngor o orfodi parcio gan gyfeirio'n benodol at:

- Y cynnig diweddar am 'Gynllun Parcio i Breswylwyr – Trwydded Rithwir';
- Sut mae adnoddau gorfodi parcio sifil yn cael eu targedu ar hyn o bryd;
- Goblygiadau ariannol gorfodi parcio a'r Cyfrif Refeniw Parcio ehangach;
- Cysondeb y safonau a gymhwysir wrth orfodi parcio a'r lefel o hyblygrwydd a ganiateir i Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil wrth wneud penderfyniadau.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol;

- Un o brif bynciau'r sgwrs yn ystod y cyfarfod oedd ymgynghoriad diweddar yr Aelodau ar e-drwyddedau ar gyfer parcio preswyl. Codwyd nifer o bryderon a chwestiynau ynghylch y mater, a arweiniodd at gais am eglurhad gan yr Aelodau o ran pam y digwyddodd ymgynghoriad yr Aelodau yn ystod diwedd mis Gorffennaf a chanol mis Awst 2018 pan oedd nifer fawr o Aelodau ar eu gwyliau; cadarnhad o ran nifer yr ymatebion a gafwyd gan Aelodau yn ystod yr ymarfer ymgynghoriad; manylion am unrhyw waith ymgynghori pellach sy'n ofynnol cyn peilota neu gyflwyno e-drwyddedau ar gyfer parcio preswyl yn raddol.

- Byddai'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd y byddai'r ymgynghoriad yn ystyried yn llawn ymarferoldeb cymhwyso deiliaid bathodynnau glas a thrwyddedau ymwelwyr yn y cynllun.

- Yr ystyrid darparu dull gwirio electronig i'r cyhoedd i'w galluogi i a yw cerbyd wedi'i gofrestru ar gyfer trwydded parcio preswyl mewn gwirionedd, er enghraifft, rhywbeth yn debyg i gronfa ddata'r DVLA.

- Yn ystod y cyfarfod, tynnodd yr Aelodau sylw at y syniad y dylid defnyddio gorfodi i newid ymddygiad parcio ac felly, lleihau nifer y troseddau a gyflawnir dros amser. Gofynnodd y Pwyllgor ad dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys data i arfarnu pa mor effeithiol y bu gorfodi - yn lleol ac ar draws Caerdydd gyfan.

## Cyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Brîff ar y Gyllideb (2 Hydref 2018);

Rhoddodd y cyfarfod ar 2 Hydref 2018 y cyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Briff y Gyllideb'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Adolygodd yr adroddiad a'r cyflwyniad nifer o agweddau ar gyllideb y Gyfarwyddiaeth gan gynnwys y canlynol:

- Diweddariad ar berfformiad y Gyfarwyddiaeth yn erbyn y gyllideb a bennwyd iddi ar gyfer 2018/19.
- Diweddariad ar berfformiad y Gyfarwyddiaeth yn erbyn yr arbedion y cytunwyd arnynt yn ystod y broses o bennu cyllideb 2018/19;
- I ystyried unrhyw bwysau ariannol sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd.
- Graddfa'r arbedion arfaethedig yn y gyllideb sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth yn 2019/20 a thu hwnt;
- Y dull a ddefnyddir i nodi arbedion yn y gyllideb ar gyfer 2019/20;

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyrau ar wahân at Aelodau'r Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr ystod fawr o broblemau sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth, gan gynnwys:

  - Rhagwelir bod y Gyfarwyddiaeth wedi gorwario gan £1.424 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19 a'i bod yn debygol na fyddai £821,000 o'r £1.838 miliwn o arbedion a nodwyd yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.

  - Bod yr arbedion arfaethedig ar gyfer 2019/20 ar fin codi i £6.5 miliwn.

  - Yr amcanestyniad y byddai'r Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff wedi gorwario gan £1.064 miliwn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 a'i bod yn annhebygol y byddai cyfran fawr o'r arbedion yn ystod y flwyddyn a nodwyd ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu cyflawni.

- Roedd y cyfraddau salwch cyfwerth ag amser llawn yng Ngwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff tua 20 diwrnod ar gyfer pob aelod o staff.

- Bod yr ymchwiliad parhaus i dwyll o fewn Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff yn cael effaith ariannol ar y sefyllfa o ran y gyllideb yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymchwiliad CThEM parhaus i fil treth tirlenwi ac na chafodd ei dalu'n llawn.

- Yr amcanestyniad y byddai'r Gwasanaethau'r Fflyd wedi gorwario gan £322,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 a bod hyn, i raddau helaeth, oherwydd arbedion mewn cysylltiad â defnyddio cerbydau nas cyflawnwyd.

- Bod gorwariant sylweddol gan yr adran Gynllunio ac Adeiladu (£354,000) a chan 'Arbedion Traws-gyfarwyddiaeth' (£222,000).

- Penderfynodd y Pwyllgor gadw golwg manwl ar y sefyllfa o ran y gyllideb a gwelliannau darparu gwasanaethau cysylltiedig yr oedd angen dirfawr amdanynt yn ystod weddill y flwyddyn ariannol a gofynnodd am y canlynol:

  - Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion am y camau gweithredu penodol yr oedd y Gyfarwyddiaeth i fod i'w cyflawni er mwyn mynd i'r afael â'r cyfraddau salwch a oedd yn uchel yn barhaus.

  - Adfachu'r Diffyg Arbedion - Eglurwyd i'r Pwyllgor ei bod yn annhebygol y câi £821,000 o'r £1.838 miliwn o arbedion ar gyfer 2018/19 ei gyflawni o fewn y flwyddyn ariannol, felly gofynnwyd am gadarnhad o ran sut y gallai'r Gyfarwyddiaeth adfachu'r diffyg arbedion yn ystod weddill blwyddyn ariannol 2018/19.

- Brexit - awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r Gyfarwyddiaeth geisio nodi'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig, a phennu cyfres o gamau gweithredu lliniarol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a achosir gan Brexit o bosibl.

- Gwelliannau a Gadarnhawyd - Gan gyfeirio'n benodol at Wasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff a Gwasanaethu Fflyd, gofynnodd y Pwyllgor am enghreifftiau o wella gwasanaethau mewn meysydd fel absenoldeb oherwydd salwch; rheoli taliadau goramser; rheoli cyllidebau; ansawdd gwybodaeth rheoli a monitro gwell ar y prosesau gwaith o'r allbynnau a gynhyrchir.

- Adolygiadau Gwasanaethau - Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o ran pryd y byddai'r adolygiadau ar gyfer Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff a Gwasanaethau Fflyd yn gyflawn, a gofynnodd pan fyddant yn gyflawn y sicrheid bod copïau o'r dogfennau ac unrhyw gynlluniau gweithredu/ amserlenni y cytunwyd arnynt ar gael.

- Costau Salwch - Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cyfraddau salwch uchel ar gyfer y Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff, gan gynnwys cost lawn y diwrnodau o salwch a gollwyd ac unrhyw gostau goramser neu asiantaethau cysylltiedig a dalwyd er mwyn darparu staff cyflenwi.

- Taliadau Goramser - Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ymchwiliad archwilio diweddar wedi samplo nifer o daliadau goramser i staff sy'n gweithio o fewn Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff. Awgrymodd dangosiadau cynnar fod nifer y gordaliadau am oramser wedi'u rhoi ac felly roedd angen rhagor o ymchwiliadau. Gofynnodd y Pwyllgor ar ddiweddariad ar ganfyddiadau'r ymchwiliad pellach i ordalu goramser.

## Diweddariad ar Raglen Beicio Caerdydd (2 Hydref 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 2 Hydref 2018 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Diweddariad ar Raglen Beicio Caerdydd'. Cefnogwyd yr eitem gan

swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i’r Aelodau ar ddatblygiad parhaus rhaglen beicio Caerdydd ac wrth wneud hynny ystyried:

- Pam fod beicio’n bwysig;
- Tueddiadau presennol a’r rhai a amcanestynnir
- Datblygiadau yn y dyfodol;
- Cynlluniau seilwaith;
- Gwaith partneriaeth;
- Heriau beicio yng Nghaerdydd: a,
- ‘Prif Gamau Gweithredu’ sy’n gysylltiedig â beicio - Cynllun Cyflawni’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd 2018/19.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Sylwodd yr aelod bod methu â chynnwys seilwaith beicio yn rhan newydd Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae yn gyfle a gollwyd ac yn y dyfodol dylai’r Cyngor geisio cynnwys seilwaith beicio ym mhob ffordd newydd a adeiledir yn y ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau am esboniad o ran o ble y daeth y cynnydd mewn beicwyr newydd a’r effaith net y cafodd y newid hwn ar newid moddol yn gyffredinol, er enghraifft, a oedd y beicwyr newydd yn gerddwyr o’r blaen neu’n ddefnyddwyr bysus.

- Cefnogodd y Pwyllgor lobio Llywodraeth Cymru er mwyn cynyddu gwariant ar feicio o £4 y pen i £20 y pen.

- Gwnaeth yr Aelodau sylw ar y diffyg cysondeb ledled y ddinas ynghylch marciau ar lonydd beicio ac arwyddion.  Roeddent yn teimlo bod y diffyg cysondeb hwn yn peri dryswch i feicwyr, i yrwyr a cherddwyr, gan argymell fod y Cyngor yn datblygu safon unigol ar gyfer arwyddion a marciau ar y lonydd i Gaerdydd.

## Nodyn Briffio i Aelodau: Polisi Enwi Ffyrdd (6 Tachwedd 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 6 Tachwedd 2018 gyfle i'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol wneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Nodyn Briffio i Aelodau: Polisi Enwi Ffyrdd'. Diben yr adroddiad oedd:

- Argymell y Polisi Enwi Strydoedd i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Mae ar Gyngor Caerdydd ("y Cyngor") gyfrifoldebau a phwerau statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiadu, dros enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor bwerau dewisol ychwanegol hefyd i roi rhif neu enw i eiddo.

- Mae gan enwi a rhifo strydoedd nifer o swyddogaethau pwysig, er enghraifft, cyfeirio ffordd, dosbarthu post yn effeithlon a sicrhau bod y gwasanaethau brys yn gallu dod o hyd i eiddo'n gyflym.

- 1.1.5 Mae enwi strydoedd hefyd yn rhan allweddol o greu lleoedd, ac mae'n bwysig yng nghyd-destun ymrwymiad y Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Safonau'r Gymraeg a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd sicrhau bod enwi strydoedd newydd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu treftadaeth leol, gydag enwau ar gyfer datblygiadau newydd sydd â chysylltiad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol yn helpu i gyflawni'r nod llesiant cenedlaethol, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Gofynnwyd i aelodau nodi cynnwys yr eitem a thrafod unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol parthed yr adroddiad.

## Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus - Ymateb i Lywodraeth Cymru Papur Gwyn (Adroddiad Paving) (19 Mawrth 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 19 Mawrth gyfle i'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol wneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus - Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru (Paving Report)' Y rheswm dros dderbyn yr adroddiad oedd er mwyn rhoi brîff byr i'r Aelodau ar ymateb y Cyngor i Ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, "Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus".

Gofynnwyd i aelodau nodi cynnwys yr eitem a thrafod unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol parthed yr adroddiad.

# YMHOLIADAU

## Ymateb y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o’r enw Adfer ein Hafonydd (5 Mehefin 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 5 Mehefin 2018 gyfle i’r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o’r enw Adfer ein Hafonydd. Roedd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd ei gefnogi gan swyddogion y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Rhoddwyd manylion am ymateb y Cabinet i’r adroddiad ac yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

? Diolchodd y Pwyllgor i’r Aelod Cabinet am ei ymateb cadarnhaol i’r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad Adfer ein Hafonydd. Yn y llythyr, nododd yr Aelodau fod yr Aelod Cabinet wedi awgrymu y dylai’r Pwyllgor ystyried ail-ymweld ag argymhellion yr adroddiad trwy wahodd y sefydliadau partner eraill i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn cyngor 2018/19.

## Rheoli Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd

Yn ystod 2018/19 bu’r Pwyllgor yn gweithio ar ymchwiliad o’r enw ‘Rheoli Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd’. Cynhaliwyd cyfarfodydd cwmpasu ym mis Mawrth ac ym mis Ebrill 2018 a chytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.  Rhestrir hyn isod:

- Bwrw ati i ddadansoddi a meincnodi sut mae awdurdodau lleol eraill yn rheoli sbwriel a thipio anghyfreithlon, gyda’r prif nod o nodi arfer gorau.  Dylai’r

dadansoddiad cymharol a'r meincnodi ganolbwyntio ar berfformiad dinasoedd craidd, awdurdodau lleol Cymru a dinasoedd sydd â phoblogaeth myfyrwyr mawr.

- Cynnal arolwg manwl ar sbwriel a thipio anghyfreithlon er mwyn profi canfyddiadau'r cyhoedd ar sut maent yn teimlo am sbwriel, tipio anghyfreithlon a glanweithdra ehangach ar y strydoedd yng Nghaerdydd.

- Trefnu nifer o ymweliadau gan Aelodau â gwasanaethau glanhau strydoedd a gorfodi gwastraff rheng flaen er mwyn helpu i gael dealltwriaeth well o'r gwaith maent yn eu gwneud a heriau pob dydd maent yn eu hwynebu.

- Cymharu perfformiad Caerdydd yn nhermau rheoli sbwriel a thipio anghyfreithlon yn erbyn arfer gorau a nodwyd yn y dadansoddiad cymharol a'r meincnodi.

Cwblhawyd yr adroddiad gorchwyl a gorffen y mis Chwefror 2019, ac wrth wneud hyn cynhaliodd a chyflawnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Pump cyfarfod grŵp gorchwyl;
- 11 sesiwn tystion ar wahân;
- Ymdrin â 26 o dystion (21 yn allanol i'r Cyngor);
- Gweithio'n agos gyda'r Aelodau Cabinet a staff y Cyngor sy'n gyfrifol am reoli sbwriel a thipio anghyfreithlon;
- Cymerodd pum Aelod o'r Pwyllgor ran mewn ymarfer cysgodi swyddi rheng flaen gyda staff sy'n gyfrifol am reoli sbwriel a thipio anghyfreithlon. Roedd hyn yn cynnwys cysgodi swyddi gyda Thîm Canol y Ddinas; y Tîm Glanhau'r Stryd; y Tîm Addysg a Gorfodi Gwastraff a'r Tîm Tipio Anghyfreithlon;
- Cynnal gweithdy gwirfoddolwyr a gefnogwyd yn dda ac y cynlluniwyd i gasglu barn gwirfoddolwyr casglu sbwriel Caerdydd;
- Llunio adroddiad Ymchwil ar Graffu o'r enw Trefniadau'r Awdurdod Lleol (2018) ar gyfer Rheoli Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon';
- Cyflwyno Arolwg Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i brofi barn y cyhoedd ar ystod o faterion sbwriel a thipio anghyfreithlon - cwblhawyd hyn gan 3,433 o bobl leol.

Wrth gloi, gwnaeth yr ymarfer gwaith a gorchwyl gyfres o argymhellion manwl ar y canfyddiadau allweddol yn seiliedig ar y themâu canlynol:

- Dyrannu Adnoddau a Thechnoleg;
- Gorfodi a Dirwyon;
- Addysg ac Ymwybyddiaeth;
- Biniau; Gwirfoddoli;
- Sbwriel yn Gyffredinol;
- Bwyd Brys;
- Tipio Anghyfreithlon
- Baw Cŵn;
- Sbwriel Ysmygu;
- Gwm Cnoi.

Cafodd adroddiad yr ymchwiliad ei gyflwyno i'w ystyried mewn cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol. Bu'r ymateb anffurfiol cychwynnol gan yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ategol yn gadarnhaol iawn. Y gobaith yw y bydd eitem i ystyried ymateb gan y Cabinet yn y dyfodol yn cael ei hamserlennu i raglen waith y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ar gyfer 2019/20.

## Ymateb y Cabinet i ymchwiliad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o'r enw 'Gwella Ansawdd Aer Caerdydd'

Yn ystod 2017/18 cyflawnodd ymarfer gorchwyl a gorffen ymarfer o'r enw 'Gwella Ansawdd Aer Caerdydd'. Mae cylch gorchwyl ar gyfer yr ymarfer wedi'i nodi isod:

Nod yr ymchwiliad yw rhoi cyfle i'r Aelodau archwilio ac ystyried sut gall y Cyngor helpu i wella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu:

- Y sefyllfa bresennol o ran ansawdd yr aer;
- Datblygiad Strategaeth Aer Glân Caerdydd;
- Safbwynt Llywodraeth Cymru ar Ansawdd Aer;

- Trafnidiaeth;
- Ffynonellau Llygredd Eraill;
- Cynllunio a Datblygu;
- Tanwydd Cynaliadwy;  Parthau Aer Glân.

Roedd gwaith y grŵp gwaith a gorchwyl yn helaeth ac roedd cyflawni ymarfer gorchwyl a gorffen 'Gwella Ansawdd Aer Caerdydd' yn golygu cynnal naw cyfarfod o'r grŵp gorchwyl; naw sesiwn tystion ar wahân, ymdrin â 38 o dystion arbenigol (26 y tu allan i'r Cyngor a 12 y tu fewn i'r Cyngor) gweithio'n agos gydag Aelodau'r Cabinet a staff y Cyngor i ddatblygu Strategaeth Aer Glân Caerdydd; adroddiadau Ymchwil i Graffu ar arfer gorau mewn 'Parthau Aer Glân' ac adolygiad allyriadau ar fflyd sector cyhoeddus Caerdydd ac ystyriaeth o'r meysydd sy'n cael eu defnyddio i strwythuro Strategaeth Aer Glân Caerdydd.

Gwnaeth yr adroddiad gyfres o ganfyddiadau allweddol a 31 o argymhellion a ddyluniwyd i helpu gwella Ansawdd Aer Caerdydd. Roedd rhai o'r prif themâu a gynhyrchwyd gan yr argymhellion yn cynnwys:

- Rhoi iechyd y cyhoedd wrth galon Strategaeth Aer Glân Caerdydd – mae llygredd aer yn achosi tua 40,000 o farwolaethau cynamserol yn y DU bob blwyddyn;
- Creu parth allyriadau isel yn Heol y Porth drwy ganolbwyntio ar leihau Allyriadau Nitrogen Deuocsid o fysus disel;
- Pwyso am seilwaith tanwydd cynaliadwy i Gaerdydd er mwyn cefnogi'r twf o ran defnyddio cerbydau allyriadau isel, er enghraifft trydan a hydrogen;
- Mwy o gynllunio rhanbarthol gyda sefydliadau awdurdodau lleol cyfagos er mwyn helpu i leihau allyriadau a achosir gan deithiau gan gymudwyr;
- Cyflymu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithiol llesol, er enghraifft, mwy o lonydd bysiau a beiciau;
- Defnyddio mentrau tymor byr o fewn rheolaeth y Cyngor i sbarduno newid moddol, er enghraifft parthau 20 milltir yr awr a chynllluniau parcio i breswylwyr;
- Arwain trwy esiampl, er enghraifft, newid fflyd y Cyngor i gerbydau allyriadau isel ac adeiladu defnydd tanwydd allyriadau isel i mewn i broses gaffael y Cyngor.

Derbyniwyd adroddiad yr ymchwiliad gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Medi 2018. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw ymateb wedi dod i law gan y Cabinet hyd yn hyn.

## Rheoli'r Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth yng Nghaerdydd

Ym mis Ebrill 2019 cytunodd y Pwyllgor ddechrau ar ymchwiliad o'r enw 'Rheoli'r Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth yng Nghaerdydd'. Cyflawnwyd y gwaith o gwmpasu'r archwiliad cychwynnol a chynnal cyfarfod cychwynnol ym mis Ebrill 2019, rhestrir y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad isod;

Nod yr ymchwiliad yw rhoi cyfle i'r Aelodau archwilio ac ystyried sut gall y Cyngor gefnogi a helpu i wella bioamrywiaeth yng Nghaerdydd.  Yn benodol bydd hyn yn cynnwys craffu ar:

- Ddatblygiad Blaengynllun Bioamrywiaeth Caerdydd, er enghraifft, ei strwythur, ei nodau a'i amcanion.
- Goblygiadau parhaus Blaengynllun Bioamrywiaeth Caerdydd, er enghraifft adrodd ar y ddogfen a'i monitro yn y dyfodol;
- Y dull a ddefnyddir gan awdurdodau lleol Cymru eraill i ddatblygu blaengynlluniau bioamrywiaeth a nodi arfer gorau yn y maes hwn;
- Rôl, rhwymedigaethau a gofynion statudol/deddfwriaethol cyfredol y Cyngor ar gyfer cefnogi a gwella bioamrywiaeth;
- Pwysigrwydd bioamrywiaeth ac ecosystemau Caerdydd;
- Yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi a gwella bioamrywiaeth yng Nghaerdydd;
- Cydweithredu cymunedol a dulliau gweithio mewn partneriaeth eraill i ddeall sut maent yn helpu i gefnogi a gwella bioamrywiaeth yng Nghaerdydd;
- Pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth yng Nghaerdydd - yn fewnol, gyda rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd;

- Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Caerdydd - gan gynnwys buddion gwasanaethau seilwaith gwyrdd ac ecosystemau;
- Rheoli Seilwaith Gwyrdd - gan gynnwys y Grŵp Seilwaith Gwyrdd
- Canllawiau Cynllunio Statudol Seilwaith Gwyrdd Caerdydd a Datblygiad a Gynllunnir;
- Strategaeth Ofodol Seilwaith Gwyrdd;
- Rhaglen Gweithredu Seilwaith Gwyrdd (Cynllun Gweithredu Peillwyr, Cynlluniau Rheoli Parciau Unigol, Cynllun Natur Lleol, Coridorau Afonydd, Strategaeth Coed, Mentrau Trawsffiniol, cynlluniau a phrojectau eraill);
- Draeniau Cynaliadwy - cysylltiadau â Phroses y Corff Cymeradwyo SDCau.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflawni'r gwaith hwn yn ystod hanner cyntaf blwyddyn cyngor 2019/20.

# MONITRO PERFFORMIAD

## Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynllun Busnes 2018/19 ac Adroddiad Blynyddol 2017/18 (5 Mehefin 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 5 Mehefin 2018 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynllun Busnes 2018/19 ac Adroddiad Blynyddol 2017/18'. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a chan swyddogion o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir. Diben yr adroddiad oedd ystyried y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn ystod 2018/19 ac adolygu ei berfformiad yn ystod 2017/18.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor wedi'i blesio gan y cynnydd yr oedd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi'i gyflawni yn ystod 2017/18 a'r cynigion yn ei gynllun busnes ar gyfer 2018/19. Yn benodol, roedd yr Aelodau'n teimlo bod y gwasanaeth wedi gwneud yn dda wrth gyflawni ei rôl o fewn y gyllideb ac wedi sgorio'n dda yn erbyn mwyafrif llethol y dangosyddion perfformiad.

- Nododd yr Aelodau ddeuddeg swydd yr oedd angen eu dileu o'r gwasanaeth i fodloni ei arbedion cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roeddent yn bryderus y gallai dileu swyddi gael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau a chytunwyd i fonitro'r effaith a gaiff hyn ar ddarparu gwasanaethau'n fanwl.

- Yn y cyfarfod cododd Aelodau rai pryderon ynglŷn â chanlyniad dangosydd perfformiad Safonau Masnach ‘SRS/TS/002’ a gafodd y sgôr risg o naill ai ‘Coch’ neu ‘Ambr’ ar draws pob un o feysydd partner yr awdurdod lleol yn 2017/18. Sylwodd swyddogion y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir fod hyn yn ddangosydd camarweiniol sy’n peri rhwystredigaeth i’r gwasanaeth oherwydd bod angen i unrhyw achosion a gafodd eu hagor tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â swyddogion y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ac yn teimlo y dylai fod yn bosibl i ddatblygu dangosydd gwell nad oedd yn canolbwyntio ar gael ei gwblhau erbyn dyddiad penodol. Gofynnodd y Pwyllgor am adolygu’r dangosydd perfformiad fel bod canlyniad mwy ystyrlon yn cael ei gofnodi, er enghraifft, defnyddio sail blwyddyn dreigl ac wedyn mesur nifer yr achosion a gwblheir o fewn amserlen benodol.

## Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

## 2018/19 (3 Gorffennaf 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd 2018/19'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd:

- Galluogi'r Aelodau i gael trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a chyfraniad y Gyfarwyddiaeth tuag at Gynllun Corfforaethol y Cyngor, ei chyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn flaenorol ac amlinelliad yr heriau sy'n wynebu'r gyfarwyddiaeth yn y dyfodol. Rhoddodd yr adroddiad gyfle i'r Pwyllgor feithrin dealltwriaeth o waith y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a'i blaenoriaethau allweddol ar gyfer eleni.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyrau at Aelodau'r Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd yr Aelodau a fu unrhyw gynnydd o ran nodi safle ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yng ngogledd Caerdydd. Esboniwyd bod Ystadau Strategol yn edrych i mewn i'r mater ac yn gobeithio cyflwyno manylion am safle posibl i'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd o fewn chwech i wyth wythnos. Oherwydd sensitifrwydd masnachol, nid oedd yn bosibl rhoi rhagor o fanylion yn y cyfarfod. Gofynnodd y Pwyllgor iddynt gael brîff cyn gynted ag y cytunwyd ar safbwynt ffurfiol.

- Roedd y Pwyllgor y wedi'i siomi i weld bod cyfraddau salwch wedi cynyddu ar draws y Cyngor ac yn ystod 2017/18 bod pob cyfarwyddiaeth wedi methu â bwrw

ei tharged o ddyddiau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd fesul person. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn bryderus bod cyfraddau salwch yn uwch yn 2017/18 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas gynt a'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd nag yr oeddent yn 2016/17. Gofynasant am grynodeb o gyfraddau salwch yn ôl timau ar gyfer pob rhan o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a oedd newydd ei ffurfio.

- Gofynnodd Aelod a oedd y cynllun Nextbike a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi bod yn llwyddiant. Esboniodd y Cyfarwyddwr dros Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd fod y lansiad wedi bod yn llwyddiant gyda Chaerdydd yn perfformio'n well na'r rhan fwyaf o ddinasoedd eraill a gyflwynodd y cynllun Nextbike. Esboniodd bod pob beic yn cael ei ddefnyddio o leiaf pedair gwaith y dydd, a oedd yn ddechrau addawol iawn. Croesawodd y Pwyllgor y sylwadau cadarnhaol a gofynnodd am fanylion am y cynllun gan gynnwys nifer y beiciau sydd ar gael; nifer y bobl sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r cynllun; sawl gwaith y defnyddir y beiciau bob dydd; cyfanswm y refeniw a gynhyrchir a'r lleoliad(au) mwyaf poblogaidd ar gyfer llogi beiciau.

- Yn ystod y ffordd ymlaen sylwodd Aelod fod Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd 2018/19 yn cynnwys dangosyddion cynllunio a fesurodd ganran y tai fforddiadwy ar y cam cwblhau a ddarperir mewn datblygiad ar safleoedd tir llwyd a maes glas (PLA/011 a PLA/012), fodd bynnag nid oedd unrhyw beth amlwg yn y ddogfen i gofnodi canran yr eiddo sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol i'w defnyddio er mwyn galluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o a yw'r fath ddangosydd yn bodoli.

## Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Chwarter 3 a 4 Adroddiadau Perfformiad 2017/18 (3 Gorffennaf 2018)

Yn ystod 2018/19 derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ar gyfer Chwarterau 3 a 4 yn 2017/18. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Y prif sylwadau a wnaed yn ystod y craffu monitro chwarterol oedd:

- Gofynnodd yr Aelodau a fu unrhyw gynnydd o ran nodi safle ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yng ngogledd Caerdydd. Dywedwyd wrthynt fod Ystadau Strategol yn edrych i mewn i'r mater ac yn gobeithio rhoi manylion am safle posibl i'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn y chwech i wyth wythnos nesaf. Gofynnodd y Pwyllgor, er ei fod yn deall sensitifrwydd masnachol y fath gynnig, am frîff cyn gynted ag y câi safbwynt ffurfiol ei gytuno.

- Roedd y Pwyllgor wedi'i siomi i weld bod cyfraddau salwch wedi cynyddu ar draws y Cyngor a bod yn ystod 2017/18, methodd pob cyfarwyddiaeth â bwrw ei darged o ddyddiau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd fesul person. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn bryderus bod cyfraddau salwch yn uwch yn 2017/18 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas gynt a'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd nag yr oeddent yn 2016/17. Wedi datgan eu pryder, gofynnodd y Pwyllgor am grynodeb o gyfraddau salwch yn ôl timau ar gyfer pob rhan o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a oedd newydd ei ffurfio. Gofynasant y dylai hyn gynnwys crynodebau Chwarterol ar gyfer 2016/17 a 2017/18:

    - Dadansoddiad o salwch hirdymor a thymor byr ar gyfer 2016/17 a 2017/18;
    - Manylion o unrhyw amrywiadau tymhorol o ran salwch yn ystod 2016/17 a 2017/18;
    - Crynodeb o brif achosion salwch;

-  Enghreifftiau o arfer gorau a oedd yn cael eu hadolygu gan y Cyngor er mwyn lleihau cyfraddau salwch gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a'r sector cyhoeddus;
-  Manylion am y cynllun yr oedd y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd newydd ei ffurfio yn ei ddatblygu i helpu gyda'r gwaith o leihau cyfraddau salwch.

- Nodwyd yn y cyfarfod bod gan y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd yn ddiffyg cyllidebol o £1.642 yn ystod 2017/18. Gofynnodd yr Aelod i'r Cyfarwyddwr dros Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a fyddai heriau ariannol y diffyg hwn yn cael eu trosglwyddo i'r gyfarwyddiaeth sydd newydd ei ffurfio gyda'r gwasanaethau sy'n dod draw o'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd. Esboniodd y byddai etifeddu rhannau o'r diffyg yn her a bod staff o'i faes yn gweithio gyda'r adran Gyllid i asesu'n llawn y canlyniadau a datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol posibl. Mynegodd y Pwyllgor eu pryder gan obeithio y byddai dull cyfrifo cost ar sail sero yr oedd y Gyfarwyddiaeth yn bwriadu ei chyflwyno yn rhoi canlyniad gwell i'r Cyngor.

## Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Chwarter 1 a
## 2 Adroddiadau Perfformiad 2018/19 (4 Rhagfyr 2018)

Yn ystod 2018/19 derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ar gyfer Chwarterau 1 a 2 yn 2018/19. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Y prif sylwadau a wnaed yn ystod y craffu monitro chwarterol oedd:

- Salwch - Roedd yr Aelodau'n bryderus iawn oherwydd y cyfraddau salwch uchel parhaus o fewn gwasanaethau allweddol yn y Gyfarwyddiaeth. Esboniodd y llythyr, yn ystod y blynyddoedd diweddar, y dywedwyd wrthynt dro ar ôl tro bod rheolwyr yn ymdrin â chyfraddau salwch uchel trwy ddilyn Polisi Salwch ac Absenoldeb y Cyngor yn fanwl, fodd bynnag, roedd y broblem yn parhau ac roedd, mewn gwirionedd yn gwaethygu. Gofynnodd y Pwyllgor, pe bai'r polisi salwch yn cael ei gymhwyso'n iawn, pam nad oedd yn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol o ran cyfraddau salwch. Gofynasant i'r Aelod Cabinet gyflwyno manylion am y camau gweithredu ychwanegol yr oedd y Cyngor yn gallu eu cymhwyso, y tu hwnt i Bolisi Absenoldeb oherwydd Salwch presennol y Cyngor y byddai o bosibl yn helpu'r Gyfarwyddiaeth i leihau cyfraddau salwch.

- Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff - Yn ystod y cyfarfod, codwyd pryderon parhaus mewn cysylltiad Gwasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff unwaith eto. Esboniodd Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd eu bod wrthi'n ailstrwythuro pob rhan o'r gwasanaeth cyfan ac y dylai hyn arwain at welliannau. Roedd yn gobeithio y bydda'r ailstrwythuro'n gyflawn erbyn blwyddyn ariannol 2018/19. O ystyried y diffyg rheolaeth ymddangosiadol mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth a achosir gan leihad yn nifer y rheolwyr, teimlai'r Pwyllgor y dylai'r ailstrwythuro newydd gynnwys manylion o ran sbarduno gwelliannau mewn cysylltiad â llywodraethu a rheoli. Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad baratoi ym mis Ebrill 2019 sy'n rhestru manylion llawn yr ailstrwythuro.

- Ailgylchu - Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen i'r Cyngor ailgylchu 20,000 tunnell ychwanegol er mwyn cyflawni targed ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru, sef 64% erbyn 2019/20. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion o ran o ba ffrydiau gwastraff y byddai'r ailgylchu ychwanegol yn dod, gan gyfeirio'n benodol at faint y byddai'n dod o bosibl o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

- Cyflwyno Technoleg yn Raddol - Yn y Cyfarfod bu rhywfaint o sgwrs ynghylch cyflwyno technoleg yn raddol er mwyn sbarduno effeithlonrwydd a sut y bydd hyn o bosibl yn cyfrannu at arbedion yn y dyfodol. Cytunodd y Cyfarwyddwr dros Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y gwahanol ddarnau o dechnoleg sy'n cael eu cyflwyno'n raddol ar hyn o bryd gan y Gyfarwyddiaeth er mwyn helpu i wella gwasanaethau rheng flaen, er enghraifft, Bartec a Civica Tranman.

# ADOLYGIAD POLISI

## Diweddariad ar y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (6 Tachwedd 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 6 Tachwedd 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Diweddariad ar y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad ar gynnydd i'r Aelodau ynglŷn â'r newidiadau sy'n cael eu cymhwyso i Strategaeth Rheoli Gwastraff Caerdydd.  Gofynnwyd i'r Pwyllgor fyfyrio ar sylwadau'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o 15 Mai 2018, y penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ar 17 Mai 2018 ac ar ffactorau eraill sydd wedi dod i'r amlwg ers hynny a fydd yn effeithio ar ddatblygu Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff Caerdydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Y sylwadau a'r arsylwadau sy'n perthyn i'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff sy'n gynwysedig yn llythyrau blaenorol y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.
- Ehangu darpariaeth biniau ag olwynion yn y ddinas ymhellach;
- Darparu gorsafoedd addysg Canolfan Ailgylchu Gwastraff Y Cartref (CAGC);
- Cynllun peilot ar gyfer casglu gwastraff gwydr domestig ar gyfer ailgylchu, sydd ar wahân i gasgliadau gwastraff cartrefi eraill;
- Canlyniadau'r ymgynghoriad ledled y ddinas ar gyfer Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018-21 - roedd hyn yn cynnwys adrannau ar y cynigion am newid allweddol yn y strategaeth drafft, gofynion seilwaith newydd, safonau'r gwasanaethau a chynigion eraill i helpu bwrw targedau statudol ar gyfer ailgylchu;
- Y gwaith parhaus i ddatblygu dull rheoli plastigau untro y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd Aelodau'n cefnogi'r syniad o ailgylchu dolen gaeedig, yn enwedig pe gallai deunyddiau gael eu prosesu'n lleol. Gwnaethant annog yr Aelod Cabinet i lobio a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r nod hon.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw Gwasanaeth Gwastraff Masnachol y Cyngor yn codi TAW ar hyn o bryd ar bob trafodyn i fusnesau ac aelodau'r cyhoedd, ac a oedd unrhyw fanteision o ran TAW i wasanaethau gwastraff masnachol yr awdurdod lleol.

- Pwysleisiodd yr aelodau nad oedd gofyn i gwmnïau gwastraff masnachol preifat ddilyn yr un targedau ailgylchu statudol a roddir i wasanaethau gwastraff yr awdurdod lleol, mae hyn yn creu her i wasanaethau casglu gwastraff yr awdurdod lleol y mae'n rhaid iddynt ddatgan pob deunydd gwastraff masnachol yn erbyn y targed ailgylchu statudol o 58% (bydd yn codi'n fuan i 64% yn 2019/20). Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod darparwyr gwastraff masnachol yng Nghymru ond yn cyflawni cyfraddau ailgylchu o 29% - mae hyn y wael i'r amgylchedd ac yn rhoi mantais fasnachol iddynt. Gofynnodd yr aelodau beth y gellid ei wneud yn ymarferol i gau'r bwlch a chreu mwy o degwch.

## Cyfarfod ar y Cyd: Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus: Rheoliadau Cŵn

## Arfaethedig (11 Tachwedd 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Cyfarfod ar y Cyd: Gorchymyn Diogelu Gofod Cyhoeddus: Rheoliadau Cŵn Arfaethedig'. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelodau Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchu; swyddogion o'r Cyfarwyddiaethau Datblygu Economaidd a Chynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a rhai Aelodau Etholedig o'r meinciau cefn a chynrychiolwyr o Guide Dogs Cymru, yr RSPCA a Cardiff Dog Action. Diben yr adroddiad oedd ystyried cynnwys y papur Cabinet ar 'Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoliadau Cŵn' a'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar ar 'Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) - Rheoliadau Cŵn Arfaethedig' a ddaeth i ben ar 22 Hydref 2018. Yn benodol edrychodd y craffu ar y canlynol:

- Cyflawni'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus;
- Canlyniadau a chanfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus;
- Adborth gan randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd ar yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, ei ystod o gynigion a chynigion ar gyfer y dyfodol;
- Ystod o opsiynau posibl y gallai'r Cyngor eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am reoli cŵn a nodwyd ym mhapur y Cabinet a'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelodau Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyngor lunio datganiad i egluro y gall pobl fynd â chŵn am dro ym mharciau Caerdydd o hyd. Teimlwyd y byddai atgoffa'r cyhoedd o'r sefyllfa bresennol yn lleihau dryswch ac yn atal anghytuno diangen rhwng y rhai sy'n mynd â chŵn am dro a defnyddwyr eraill y parciau.
- Yn ystod y cyfarfod, dywedodd cynrychiolydd o Guide Dogs Cymru y dylai'r Cyngor fod wedi paratoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynigion ar y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoliadau Cŵn cyn dechrau'r ymarfer ymgynghori. Teimlodd y byddai hyn o bosibl wedi helpu i nodi rhai o'r

pryderon a godwyd yn ddiweddarach gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda hyn ac yn argymell y dylid cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn i unrhyw gynigion drafft ar y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus gael eu dwyn ymlaen.

- Rhan bwysig o gwmpas y craffu oedd nodi opsiynau posibl y gallai'r Cyngor eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â rheoli cŵn'. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r Cyngor archwilio'r syniadau canlynol:

  - Cyflwyno'r 'Green Dog Walkers Scheme' i Gaerdydd - awgrymodd un Aelod y gallai hyn o bosibl gael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r Ymgyrch 'Caru eich Caerdydd'.
  - Cyflwyno cynlluniau peiriannau dosbarthu bagiau baw cŵn cymunedol yn raddol y gellid talu amdanynt â nawdd gan gwmnïau lleol, er enghraifft, practisau milfeddygol.
  - Rhagor o gyfathrebu gwell ar faw cŵn a rheolaeth - dylid ei dargedu at randdeiliaid allweddol gan gynnwys practisau milfeddygol, grwpiau perchnogion cŵn a'r cyfryngau cymdeithasol.
  - Ymgyrchoedd addysgol sy'n seiliedig ar faw cŵn a rheolaeth a anelir at ysgolion - mae'n haws addysgu arferion gydol oes ar oedran cynnar.
  - Heddlu De Cymru yw un o'r cyrff cyhoeddus cyfrifol sy'n meddu ar bwerau i orfodi yn erbyn baw cŵn a materion eraill ar reolaeth cŵn. Dylid eu hannog gan y Cyngor i roi mwy o gamau gorfodi ar waith wrth fynd i'r afael â'r problemau gwrthgymdeithasol yma.
  - Disgrifiwyd gorfodi effeithiol yn erbyn baw cŵn fel problem sydd bron yn amhosibl oherwydd y nifer fach o staff sydd gan y Cyngor sy'n meddu ar yr awdurdod i ymdrin â'r tramgwydd. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn gwneud gwaith ymchwil i nodi arfer gorau ymhlith awdurdodau lleol mewn cysylltiad â baw cŵn rheoli baeddu cŵn. Pan gaiff hyn ei wneud dylid defnyddio'r wybodaeth a gesglir i helpu i wella dull y Cyngor o reoli baw cŵn.
  - Awgrymodd Aelod y dylai'r Cyngor wneud rhagor o waith cydweithredol gyda Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn helpu rheoli a mynd i'r afael â phroblemau gyda baw cŵn.

- Wrth ymateb i sylwadau a wnaed am y diffyg adnoddau gorfodi mewn parciau, atgoffodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Economi a Diwylliant Aelodau’r Cabinet am Argymhelliad 11 o ‘Ariannu Parciau’ Economi a Diwylliant.

## Ansawdd yr Aer - Diweddariad ar Gynnydd (19 Mawrth 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 19 Mawrth 2019 gyfle i’r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o’r enw ‘Ansawdd yr Aer - Diweddariad ar Gynnydd’. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelodau Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd; Gofal Cymdeithaso, Iechyd a Llesiant a Cynllunio Strategol a

Thrafnidiaeth, ynghyd â swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar:

- Y gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn cydymffurfio â thargedau ansawdd aer statudol yr UE yn yr amser lleiaf posibl; ac,
- Ystyried cynnwys adroddiad o'r enw 'Astudiaeth o Ddichonoldeb Achos Busnes Amlinellol - Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru' a oedd i'w dderbyn gan y Cabinet ar 21 Mawrth 2019.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at Aelodau'r Cabinet, a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol;

- Roedd y Pwyllgor yn gefnogol o lawer o'r mesurau yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu cyflwyno er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth o ran ansawdd aer o fewn yr 'amser lleiaf posibl', er enghraifft, mae cyflwyno 36 o fysus trydan yn newyddion da iawn i Gaerdydd, ac felly hefyd y polisi tacsis diwygiedig, a'r ymrwymiad parhaus i wella seilwaith beicio yn y ddinas.

- Gwelliannau Ansawdd Aer Ledled Caerdydd - Teimlai'r Pwyllgor mai prif ganolbwynt yr adroddiad oedd cyflawni cydymffurfiaeth o ran ansawdd yr aer yn is na'r targed o 40 µg/m3 yn yr 'amser lleiaf posibl', pan yn lle hynny dylai fod wedi bod ynglŷn â gwneud popeth a gallwn i wella ansawdd yr aer ar draws Caerdydd gyfan yn yr 'amser lleiaf posibl' Dywedon nhw y cafodd ymdrechion eu cyfeirio at gyflawni gwelliannau yn ansawdd yr aer yng nghanol y ddinas a'r ardal gyfagos, gyda nifer o fesurau yn cael eu dileu o asesiadau pellach yn yr Achos Busnes Amlinellol oherwydd eu bod naill ai'n amhosibl eu cyflawni neu yng nghyffiniau'r broblem uniongyrchol. Yn ogystal â hyn, nid oedd yn ymddangos bod cyflawni'r projectau seilwaith allweddol fel y llwybrau bysus trafnidiaeth gyflym yn gwneud cynnydd. Yn y bôn, roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai'r cymhelliant ar gyfer y darn o waith hwn fod yn seiliedig ar wella ansawdd yr aer ledled Caerdydd i greu buddion iechyd i bob preswylydd. Dylai fod wedi'i gefnogi gan ymrwymiad clir i sbarduno newid moddol a set o gamau gweithredu ledled y ddinas i helpu i gyflawni'r nod hon.

- Deunydd Gronynnol - Dywedodd y Pwyllgor mai prif ganolbwynt yr adroddiad oed lleihau allyriadau nitrogen deuocsid. Cafodd hyn ei ddisgrifio yn nod bwysig iawn oherwydd bod nitrogen deuocsid yn cael effaith negyddol iawn ar iechyd dynol, fodd bynnag, roedd llygryddion eraill fel deunydd gronynnol hefyd yn bryder iechyd pwysig. Aethant ati i esbonio bod tacsis a bysus trydan yn lleihau nitrogen deuocsid yn sylweddol, ond bydd peirianwaith mecanyddol y cerbydau hyn (er enghraifft, brecio) hefyd yn cynhyrchu llawer iawn o ddeunydd gronynnol. Felly argymhellodd yr Aelodau fod angen i Strategaeth Ansawdd Aer Caerdydd gynnwys mwy o ymrwymiad i leihau lefelau deunydd gronynnol.

## Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd (2 Ebrill 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 2 Ebrill 2019 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o’r enw ‘Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd’. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi cyfle i’r Pwyllgor ofyn cwestiynau ar y Rhestr Cynlluniau a Nodir ar Gynnal a Chadw a Gynllunnir a’r fethodoleg a ddefnyddir i flaenoriaethu’r cynlluniau priffyrdd ar gyfer y rhestr hon.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan wneud y pwyntiau canlynol:

- Mewn blynyddoedd blaenorol, pan gyhoeddwyd y 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd', rhoddwyd y rhestr gyfan o gynlluniau yng Nghaerdydd i bob Aelodau. Ni ddigwyddodd hyn yn 2018/19 dim ond manylion o gynlluniau yn eu wardiau eu hunain a roddwyd i'r Aelodau: roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cael gwybod pryd roedd y Cyngor yn bwriadu gwneud gwaith ail-wynebu priffyrdd arall. Teimlai'r Aelodau fod derbyn gwybodaeth ar gyfer Caerdydd gyfan yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd, er enghraifft, ei fod yn eu helpu i nodi cynlluniau a allai gael effaith uniongyrchol ar eu ward. Gofynnodd y Pwyllgor fod bob Aelod yn cael rhestr gyfan o'r 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd' ar gyfer 2019/20.

- Gofynnodd yr Aelodau am gyfle i graffu ar 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd' 2019/20 cyn ei chyhoeddi fel y gallent adolygu'r cynigion a rhoi adborth.

Yn ystod y cyfarfod gofynnodd Aelod beth ddigwyddodd i'r cynlluniau arfaethedig a gafodd eu cynnwys ar y 'rhestr hir' ar gyfer 2018/19, gan ofyn a gâi'r rhain eu blaenoriaethu ar gyfer y 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd' yn 2019/20.
Esboniodd swyddog y câi'r cynlluniau arfaethedig eu hailystyried ar gyfer y 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd' 2019/20, fodd bynnag, byddent yn cael eu hasesu yn erbyn cynlluniau arfaethedig eraill. Roedd Aelodau'n deall y sail resymegol am yr ymateb ond at ddibenion eglurder, aethant ati i ofyn am:

- Gopi o 'rhestr hir' 2018/19 ar gyfer y 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd';
- Copi o'r broses a ddefnyddir wrth greu'r 'Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd' a oedd yn cynnwys manylion ar sut y rheolir cynlluniau ar y 'rhestr hir' o flwyddyn i flwyddyn.

## Fferm Solar Ffordd Lamby - Diweddariad ar Gynnydd (2 Ebrill 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 2 Ebrill 2019 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Fferm Solar Ffordd Lamby - Diweddariad ar Gynnydd'. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd project Fferm Solar Ffordd Lamby a rhoi manylion am y camau nesaf yn y gwaith o gyflawni'r cynllun hwn.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn gefnogol iawn o'r project hwn a theimlai y byddai'n ychwanegiad gwych at seilwaith presennol y Cyngor a fyddai'n cynhyrchu trydan

cynaliadwy, helpu i leihau ôl troed carbon Caerdydd a chynhyrchu incwm sydd ei angen yn fawr.

- Roedd yr Aelodau'n bryderus am yr effaith bosibl ar lefel y fioamrywiaeth yn y safle ac o'i amgylch, felly gwnaethant ofyn am ragor o fanylion ar y gwaith oedd wedi'i wneud i gefnogi a gwella bioamrywiaeth yn y fferm solar arfaethedig ag o'i hamgylch.

Roedd aelodau'n bryderus y byddai'r syniad o Brexit a'r amrywiadau posibl o ran arian cyfred sy'n gysylltiedig â'r newid hwn yn effeithio ar hyfywedd y fferm solar. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod y risgiau posibl a gyflwynwyd gan Brexit wedi'u lliniaru ac na fyddai'n atal cyflawni'r cynllun.

## Cynllunio, Cludiant a'r Amgylchedd - Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - 2019/20 (7 Mai 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 7 Mai 2019 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - 2019/20'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd siarad â'r Aelodau am y cynigion sy'n gynwysedig yn y Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - 2019/20.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyr at Aelodau'r Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a'r Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar gynnydd o ran cynlluniau gweithredu yn y ward. Dywedwyd wrthynt y câi'r rhain eu cyflawni o fewn chwe mis, fodd bynnag, byddant yn seiliedig ar ardal yn hytrach nag ar ward. Esboniodd swyddog fod y cyflwyniad graddol wedi'i oedi er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar ardal yn cael eu datblygu gan ddefnyddio gwybodaeth gywir. Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad o'r dyddiad cychwyn ar gyfer y

cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar ardal, ynghyd â'r gwasanaethau dan sylw a'r ffiniau daearyddol a ddyrannwyd ar gyfer pob cynllun gweithredu. Yn ogystal â hyn, gofynnodd y Pwyllgor i' gyflwyniad graddol y cynllun fod ar gael i'w graffu cyn diwedd 2019.

- Gofynnodd yr Aelodau yn ystod yr eitem hon beth y gellid ei wneud i wella cywirdeb a chyflymder data ar wastraff a gesglir ar gyfer ffrydiau gwastraff masnachol a domestig. Esboniodd swyddog ei fod yn bosibl dweud ar unwaith faint o wastraff cyffredinol a gasglwyd, fodd bynnag, bod y llif data o ran gwastraff angen yr union feintiau ar gyfer deunyddiau penodol - er mwyn gwneud hyn yn fwy cymhleth, er mwyn i'r deunydd gyfrif tuag at ffigyrau ailgylchu roedd rhaid iddo gael ei ategu gan dderbynneb prosesu. Wedyn gofynnodd yr Aelodau a oedd yn bosibl cyflwyno ystadegau ailgylchu yn ôl ward a dywedwyd wrthynt nad oedd yn bosibl. Creodd hyn rywfaint o ddryswch o ran y ffordd ymlaen oherwydd bod rhai o'r Aelodau'n credu eu bod wedi cael gweld cyfraddau ailgylchu yn ôl wardiau yn y gorffennol. Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad, a yw dal yn bosibl cyflwyno cyfraddau ailgylchu yn ôl wardiau ac os nad yw'n bosibl, y dylid cael esboniad o ran yr hyn sydd wedi newid ers cyhoeddi cyfraddau ailgylchu yn ôl wardiau yn y gorffennol.

- Gofynnodd un o'r Aelodau gwestiwn am nifer fawr y casgliadau a fethwyd a ddigwyddodd ar ddydd Sadwrn ar ôl yr ŵyl banc yng Ngogledd Caerdydd. Yn benodol, cyfeiriodd at y ffaith, ar ôl ymholi i'r mater, ei bod wedi cymryd deuddeg diwrnod i swyddog ymateb. Dywedwyd wrtho y bu problemau gyda cherbydau'n torri i lawr, argaeledd a salwch staff, ac esboniodd y swyddog wedyn fod cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu er mwyn atal y fath beth rhag digwydd yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau i'r Aelod Cabinet roi copi o'r cynllun gweithredu i'r Pwyllgor pan gaiff ei gwblhau.

## Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynllun Busnes Drafft 2019/20 (7 Mai 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 7 Mai 2019 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynllun Busnes Drafft 2019/20'. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Cadeirydd Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd a swyddogion o'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir. Diben yr adroddiad oedd siarad â'r Aelodau am y cynigion sy'n gynwysedig yn Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynllun Busnes Drafft 2019/20.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyrau i'r Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau a Chadeirydd Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr Aelodau'n bryderus i glywed bod y gwasanaeth wedi bod yn wynebu problemau yn ddiweddar yn ymwneud â recriwtio a chadw, yn benodol ar gyfer y Gwasanaeth Hylendid Bwyd a oedd wrthi'n recriwtio pum swyddog newydd yn lle staff a oedd wedi gadael i ddilyn cyfleoedd cyflogaeth eraill. Roeddent yn gobeithio bod y broses recriwtio bresennol yn llwyddiannus ac na fyddai'r lleihad dros dro mewn staff yn cael effaith negyddol ar allu'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd i wneud yr holl ymweliadau angenrheidiol. Gofynnodd yr Aelodau i'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir gyflawni adolygiad byr er mwy asesu beth y gellid ei wneud i atal colli staff mor sydyn yn y dyfodol.

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus bod dyfodol y gwasanaeth 'Allan o Oriau' yn edrych yn ansicr oherwydd pwysau ariannol a phwysau eraill. Teimlai'r aelodau

fod hyn yn wasanaeth pwysig, ac os caiff ei golli, byddai'n ei wneud yn anodd ymdrin ag ystod eang o ymddygiad gwrthgymdeithasol hwyr y nos.

# CRAFFU CYN Y PENDERFYNIAD

## Clampio a Symud Cerbydau Niwsans o Briffyrdd a Thir Cyhoeddus (6 Tachwedd 2018)

Rhoddodd y cyfarfod ar 6 Tachwedd 2018 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Clampio a Symud Cerbydau Niwsans o'r Priffyrdd a Thir Cyhoeddus'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd ystyried cyflwyno polisi newydd ar gyfer clampio a symud y cerbydau niwsans canlynol, gan gyfeirio'n benodol at:

- Gerbydau sy'n berchen i droseddwyr mynych a'r rhai sy'n osgoi talu am docynnau parcio a thraffig;
- Cerbydau sy'n achosi rhwystr uniongyrchol a/neu wedi'u parcio'n groes i reoliadau parcio;
- Cerbydau heb geidwad cofrestredig ar gofnodion y DVLA;
- Cerbydau heb eu trethu yn unol â Deddf Trethu a Chofrestru Cerbydau 1994.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r trefniant gwaith arfaethedig gyda'r DVLA ar gyfer Clampio a Symud Cerbydau Niwsans o'r Briffordd a Thir Cyhoeddus. Wrth gyflawni'r cynllun gofynnodd yr Aelodau am sicrhau y caiff proses deg ar gyfer blaenoriaethu adnoddau ar gyfer clampio a symud yn ei datblygu a'i rhoi ar waith

o’r cychwyn cyntaf, h.y. bod yr adnoddau ar gyfer clampio a symud cerbydau yn cael eu rhannu’n deg ar draws pob un o wardiau Caerdydd.

- Gofynnodd yr Aelodau hefyd am adroddiad ar gynnydd erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19, yn amlinellu cynnydd y bartneriaeth waith newydd.

## Cynigion Cyllidebol Drafft 2019/20 – Trosolwg Corfforaethol (18 Chwefror 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 18 Chwefror 2019 gyfle i'r Pwyllgor graffu a gwneud sylwadau ar y Cynllun Corfforaethol Drafft 2019 i 2022 a chynigion Drafft ar gyfer Cyllideb y Cabinet 2018/19’. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a Chyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i’r cyfarfod. Fe’u cefnogwyd gan swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd.

Roedd y llythyr a anfonwyd ar ôl y cyfarfod at yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yn mynd i’r afael â chynnwys y cyfarfod cyfan ac yn gwneud y pwyntiau allweddol canlynol:

Trosolwg Corfforaethol

- Y Rhaglen Gyfalaf a Phwysau’r Gyllideb Refeniw yn y Dyfodol - yn ystod y cyfarfod gofynnodd yr Aelodau pa mor gynaliadwy oedd Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf, gan gwestiynu’r effaith y gallai hyn ei chael ar ystod eang o wasanaethau a ariennir trwy’r gyllideb refeniw. Roedd y rhaglen gyfalaf bum mlynedd yn cynnwys ychydig dros £843 miliwn mewn cynigion; y mae angen ad-dalu llawer ohono trwy gyllid o gyllideb refeniw'r Cyngor Esboniodd swyddog i’r Pwyllgor fod y cynigion presennol yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy; fodd bynnag, gallai ehangu ymhellach ar y Rhaglen Gyfalaf roi pwysau mawr ar gyllid y Cyngor. Gan ystyried yr heriau ariannol presennol sy’n wynebu’r Cyngor, dywedodd y Pwyllgor y dylai pob penderfyniad buddsoddi cyfalaf fod yn seiliedig ar ddoethineb a’i gefnogi gan achos busnes cadarn. Roeddent yn teimlo y dylai buddsoddi cyfalaf ariannu ei hun

yn y tymor hir a dylid ei ddefnyddio fel catalydd ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen pwysig yn barhaus.

- Cyflawni Arbedion - Dangosodd adroddiad cyllideb mis chwech y câi dim ond £11.24 miliwn o arbedion £14.296 miliwn y Cyngor eu cyflawni yn ystod 2018/19; roedd hyn yn golygu bod y Cyngor yn rhagfynegi diffyg arbedion cyffredinol o £3.056 miliwn ar gyfer 2018/19. Mae'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn benodol wedi cael trafferthion wrth gyflawni arbedion yn 2018/19 gyda diffyg arbedion a ragfynegir o tua 40%. Roedd y Pwyllgor wedi'i siomi gan y canlyniadau ac yn gofyn am sicrwydd y câi'r cynigion arbedion ar gyfer 2019/20 eu cynllunio a'u cyflawni'n well na'r rhai a gyflwynwyd yng nghyllideb 2018/19. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr arbedion o £19.157 miliwn sy'n ofynnol ar gyfer 2019/20.

Portffolio Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth – Cynigion Drafft ar gyfer y Gyllideb 2019/20 – Trosolwg Corfforaethol

- Buddsoddi mewn Priffyrdd - Mecanwaith Gwydnwch Ariannol - Dywedwyd wrth aelodau bod y Mecanwaith Gwydnwch Ariannol ar gyfer 2019/20 wedi dyrannu £1 miliwn ar gyfer 'gwaith gwella asedau priffyrdd wedi'u leoleiddio' a £250,000 ar gyfer 'arwyddion a llinellau ar y ffyrdd'. Roedd hyn yn ogystal â'r £1.477 miliwn a ychwanegwyd i'r gyllideb Priffyrdd gan ddefnyddio'r un mecanwaith. Roedd yr aelodau yn cwestiynu pam fod y Cyngor yn ariannu'r seilwaith priffyrdd yn barhaus gyda mesur cyllido dros dro yn hytrach ag adeiladu cyllid ychwanegol i mewn i'r gyllideb sylfaen. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'r dull hwn yn rhoi cyfle gwell i swyddogion Priffyrdd wneud gwaith cynllunio yn hytrach gorfod aros bob blwyddyn i weld faint y byddent yn ei gael o bosibl gan y Mecanwaith Gwydnwch Ariannol.

- Clampio a Symud Cerbydau Niwsans - Craffodd y Pwyllgor ar y trefniant gwaith newydd ym mis Tachwedd 2018 a dywedwyd wrthynt y byddai'r gwasanaeth yn dechrau ym mis Ionawr 2019. Yn y cyfarfod, dywedwyd wrth yr Aelodau y bu oedi wrth weithredu'r cynllun oherwydd 'llithriant', a'u gadawodd yn bryderus am y gallu i gyflawni'r arbediad. Mewn ymateb i hyn gofynnwyd am esboniad o

ran pam y cafodd y dyddiad cychwyn amcanestynedig ei oedi, pryd y rhagwelwyd y byddai'r cynllun yn dechrau ac os câi'r arbediad o £120,000 ei gyflawni yn 2019/20.

- Buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn Trafnidiaeth Gynaliadwy - roedd yr Aelodau yn falch o weld buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn y Rhaglen Gyfalaf er mwyn cyflawni mentrau trafnidiaeth cynaliadwy, er enghraifft, £10.852 miliwn o'r 'Gronfa Trafnidiaeth Leol', £950,000 ar gyfer cyflwyno parthau 20mya yn raddol a £5.5miliwn ar gyfer y seilwaith beicio newydd.
  Cydnabu'r Aelodau nad oedd buddsoddiad o'r fath yn rhywbeth y gallai'r Cyngor ei gyflawni ar ei ben ei hun; felly, roeddent yn teimlo y dylid diolch i Lywodraeth Cymru am ei chefnogaeth.

Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd – Cynigion Drafft ar gyfer Cyllideb 2018/19 – Trosolwg Corfforaethol

- Glanhau Parthau - Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyngor wrthi'n datblygu dull glanhau parthau newydd a oedd yn cael ei pheilota yn Llaneirwg. Roedd nifer o'r Aelodau'n synnu wrth hyn gan nad oedd unrhyw ymgysylltu ehangach â'r Aelodau wedi digwydd ar y cynigion. Dywedwyd y byddai ymgysylltu ehangach â'r Aelodau yn digwydd pe bai'r cynigion yn cael datblygu. Croesawodd y Pwyllgor hyn gan argymell y dylai'r gwaith o gynnwys cynghorwyr lleol ddigwydd ymhell cyn unrhyw gyflwyno graddol ar lanhau parthau.

- Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Gogledd Caerdydd - Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yng nghynnydd Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Gogledd Caerdydd ac yn gofyn am gyflwyno diweddariad ar y cynnydd i graffu arno cyn i unrhyw bapur ar y pwnc gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

- Cyflawni Targedau Ailgylchu - trafodwyd y mater o fwrw'r targed ailgylchu o 64% yn y dyfodol yn y cyfarfod. Disgrifiodd swyddogion gyfres o fesurau y maent yn bwriadu eu gweithredu yn y flwyddyn i ddod er mwyn cyflawni'r targed hwn, a gwnaethant sylwadau ar heriau ychwanegol y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn y maes ailgylchu, er enghraifft, y posibilrwydd o

newid yn gyfan gwbl yn strwythur y targedau ailgylchu. Ar ôl y cyfarfod gofynnodd yr Aelodau a allai'r swyddogion roi crynodeb i'r Pwyllgor o'r:

- camau gweithredu y maent yn cynnig eu defnyddio er mwyn cynyddu cyfraddau ailgylchu a'r effaith a ragwelir y maent yn gobeithio y bydd y rhain yn ei chael;
- Unrhyw gynlluniau y mae'r Cyngor wedi'u creu i ymdrin ag unrhyw newidiadau o ran targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru.

## Gorchymyn Diogelu Gofod Cyhoeddus Drafft – Rheoli Cŵn (19 Mawrth 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 19 Mawrth 2019 gyfle i Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus Drafft - Rheoli Cŵn'. Cefnogwyd yr eitem gan yr Aelodau Cabinet dros
Hamdden a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Hefyd cymerodd tystion allanol o'r RSPCA a Cardiff Dog Action ran yn y cyfarfod, a gwnaed cyfraniadau gan nifer o Aelodau Etholedig eraill. Diben yr adroddiad oedd:

- Rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu cyn penderfynu ar gyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn o dan Adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ac adolygu'r ddogfen polisi ar gyfer Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelodau Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden a Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd yn glir yn ystod y cyfarfod bod Aelodau'r Pwyllgor a'r tystion yn fodlon ar y cynigion ar gyfer y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn. Roeddent yn teimlo fod y Cabinet wedi ymdrin â'r prif bryderon yn ystod yr ymarfer ymgynghori ac wedi llunio set gadarn o gynigion i fynd i'r afael â baeddu cŵn yn y ddinas.

- Bod y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn gwneud nifer o eithriadau priodol yn erbyn cymhwyso'r polisi, er enghraifft, eithrio perchnogion cŵn cymorth a chŵn tywys rhag cael eu herlyn. Nid oedd cŵn therapi wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid eu hychwanegu at y rhestr.

- Nid oedd y Pwyllgor yn argyhoeddedig bod gan y Cyngor a'i bartneriaid y capasiti sydd ei angen i gyflwyno'r orfodaeth sy'n ofynnol er mwyn cefnogi'r pwerau newydd. Gofynnodd yr Aelodau am grynodeb o'r holl adnoddau gorfodi sydd ar gael i gefnogi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a manylion ar sut y gellid gwneud y mwyaf o'r adnoddau hyn o bosibl.

- Un o'r blaenoriaethau cyhoeddus a nodwyd yn yr ymarfer ymgynghori oedd gwella'r ddarpariaeth finiau er mwyn helpu i leihau baw cŵn. O ystyried bod hyn yn flaenoriaeth gyhoeddus, gofynnodd y Pwyllgor am gynllun o ran sut roedd y Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryder hwn.

## Polisi Apelio Dirwyon Parcio (19 Mawrth 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 19 Mawrth 2019 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Polisi Apelio Dirwyon Parcio'. Cefnogwyd yr eitem gan swyddog

o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd:

- Adolygu cyflwyno polisi newydd ar heriau, sylwadau ac apeliadau sy’n gysylltiedig â gorfodi Parcio Sifil a Throseddau Traffig sy’n Symud. Er mwyn cefnogi’r craffu, rhoddwyd copi i’r Aelodau o’r polisi drafft o’r enw ‘Polisi Heriau, Sylwadau ac Apeliadau - Polisi Deddf Rheoli Traffig 2004’.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan ddweud:

- Bod Aelodau’r Pwyllgor yn cytuno fod y Polisi Heriau, Sylwadau ac Apeliadau yn gam cadarnhaol ymlaen. Teimlwyd ei fod yn cyflwyno strwythur clir a chryno ar gyfer prosesu holl apeliadau’r dyfodol, gan alluogi rhywfaint o hyblygrwydd i ymdrin â’r achosion mwy cymhleth. Hoffai’r Pwyllgor ddiolch i’r staff a oedd yn rhan o greu’r ddogfen hon sy’n bwysig ac wedi’i hysgrifennu’n dda.

## Craffu Cyn Penderfynu; Goleuadau Stryd LED ar y Rhwydwaith o Briffyrdd Preswyl (7 Mai 2019)

Rhoddodd y cyfarfod ar 7 Mai 2019 gyfle i'r Aelodau graffu a gwneud sylwadau ar eitem o'r enw 'Craffu Cyn Penderfyniad: Goleuadau Stryd LED ar Y Rhwydwaith y Priffyrdd Preswyl’. Cefnogwyd yr eitem gan swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd. Diben yr adroddiad oedd:

- Adolygu’r cynnig i gyflwyno goleuadau stryd LED yn raddol ledled rhwydwaith priffyrdd cyn iddo gael ei derbyn gan y Cabinet ar 16 Mai.

Yn dilyn trafodaeth, cwestiynau a sylwadau, anfonodd y Pwyllgor lythyr at yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, gan ddweud:

- Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r cynllun i gyflwyno goleuadau stryd LED yn raddol ledled rhwydwaith priffyrdd preswyl Caerdydd. Teimlwyd y byddai'n sicrhau arbedion, lleihau allyriadau carbon ac yn ychwanegu at enw da'r Cyngor fel sefydliad sy'n cefnogi datgan argyfwng hinsawdd.

- Teimlai'r Pwyllgor fod y cynigion ar arbedion a modelu a ddarparwyd yn geidwadol iawn gan eu bod yn seiliedig ar gynnydd prisiau ynni dros yr 20 mlynedd nesaf. O ystyried yr angen parhau i gyflawni arbedion cyllidebol, awgrymodd y Pwyllgor ychwanegu cynnydd bach a gymerir yn y 'Buddion Ariannol - Taladwy' ar draws cyfnod 17 mlynedd y model busnes. Teimlwyd y dylai'r arbedion tybiedig gael cynnwys yn y cynllun ariannol tymor canolig er mwyn i'r Gyfarwyddiaeth gynorthwyo gydag arbedion cyllidebol yn y dyfodol.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau y câi'r holl oleuadau stryd ar y rhwydwaith priffyrdd preswyl eu trosi i LED o ganlyniad i'r ymarfer caffael arfaethedig, ac eithrio'r goleuadau stryd sydd dan reolaeth y gwasanaeth Parciau a Thai. Esboniwyd na chafodd y rhain eu hychwanegu at y cynnig caffael oherwydd nad oes gan y gwasanaeth reolaeth dros y goleuadau hyn, na'r wybodaeth sydd ei hangen i'w cynnwys yn yr ymarfer. Teimlai'r Aelodau ei fod yn gynllun a fyddai'n creu incwm ac yn helpu i leihau allyriadau carbon, felly, dylai'r Cyngor weithredu fel corff unigol ac ychwanegu'r gwasanaeth Parcia a'r stoc Tai at yr ymarfer caffael.

# RHAGLEN WAITH A ARGYMHELLIR I'R DYFODOL

Mae'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwaith, pan fo cyfle i'r Aelodau ystyried eitemau i'w cynnwys ar y rhaglen waith, ac awgrymu unrhyw faterion newydd a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mae'r eitemau canlynol wedi'u nodi yn ystod 2018/19 fel eitemau addas i'w trafod yn ystod y broses o raglennu gwaith 2019/20:

- Llwybrau a Gwasanaethau Bws Caerdydd;
- Fferm Solar Ffordd Lamby - Diweddariad i'r Aelodau;
- Rhaglen Ail-wynebu Priffyrdd;
- Trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd;
- Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rheoleiddiol a Rennir 2019/20 a'r Cynllun Busnes 2020/21;
- Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff – 2019 i 2022;
- Cynhyrchiant Casglu Gwastraff;
- Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Rheoli Ailgylchu a Gwastraff;
- Strategaeth Angladdau Fforddiadwy;
- Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (BRED);
- Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2020/21;
- Cyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd – Perfformiad Chwarterol;
- Cyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd – Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2020/21;
- Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Gwella Digideiddio;
- Strategaeth Fwyd Caerdydd;
- Trafnidiaeth Cymru - Diweddariad ar Fetro De Cymru;
- Papur Gwyn Trafnidiaeth.

Gwasanaethau Craffu, Dinas a Sir Caerdydd,
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd.  CF10 4UW
029 2087 2953    E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk

© 2019 Dinas a Sir Caerdydd